

## **Pontio'r Bwlch? Ymchwilio i hawliau cyfranogol plant ifanc ar draws Addysg Gychwynnol i Athrawon a Dysgu Proffesiynol yng Nghymru**



Ochr yn ochr â'n harchwiliad o ddeddfwriaethau a pholisiau addysg, roeddem hefyd am ddeall sut mae rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon a chyfleoedd Dysgu Proffesiynol i athrawon yn cyd-fynd â gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer hawliau cyfranogol plant ifanc. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn 'bont' rhwng deddfwriaeth, polisi a phrofiadau plant yn yr ystafell ddosbarth.

Aethom ati i greu holiadur ar-lein a chysylltu â'r 7 Sefydliad Addysg Uwch sy'n cynnig rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon ar draws Cymru a'r 11 darparwr Dysgu Proffesiynol a nodwyd gan y tîm ymchwil. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddarparu manylion am eu cyd-destun a chynnwys eu cyrsiau gyda'r nod o gyflwyno darlun cynhwysfawr o ble a sut y dysgir hawliau cyfranogol plant ifanc ar draws eu rhaglenni.

Gan fabwysiadu dull dadansoddi cynnwys ansoddol, cynhaliwyd dadansoddiad diddwythol i ddechrau ([Kyngäs a Kaakinen, 2020](#)), gan ddefnyddio nodweddion

tri model Addysg Hawliau Dynol [Tibbett \(2017\)](#) i ddatblygu matrices categoreiddio. Cafodd data eu categoreiddio fel rhai a oedd yn cynnig agwedd 'Gwerthoedd ac Ymwybyddiaeth', 'Atebolrwydd' neu 'Ymgyrchoedd' tuag at addysgu hawliau cyfranogol plant ifanc. Ar ôl mapio'r data ar draws y tri model, cafodd yr ymchwilyr gyfle i ailddadansoddi'r data gan ddefnyddio dull anwythol ([Kyngäs, 2020](#)) i nodi unrhyw batrymau, themâu neu gysyniadau sy'n dod i'r amlwg nad ydynt wedi'u nodi o fewn y tri model. Mae defnyddio'r dull hwn yn cyfuno manylder dadansoddiad diddwythol a hyblygrwydd dadansoddiad anwythol i archwilio'r goblygiadau i hawliau cyfranogol plant ac yn osgoi amwysedd diangen o wahanu'r ddau ddull ([Armat et al, 2018](#)).

Bydd y canfyddiadau a'r drafodaeth sy'n deillio o hyn yn dangos y ddarpariaeth bresennol fel y mae'n berthnasol i dri model Addysg Hawliau Dynol Tibbett (2017). Bydd hefyd yn cyfeirio at unrhyw fylchau, heriau a/neu gyfleoedd posibl i wella'r aliniad rhwng deddfwriaeth a pholisi a'r arferion sy'n deillio o hynny yn yr ystafell ddosbarth.

## Cyfeirnodau

Armat, M. R., et al. (2018). Inductive and deductive: Ambiguous labels in qualitative content analysis. *The Qualitative Report*, 23, 219–221.

Kyngäs, H., & Kaakinen, P. (2020). 'Deductive content analysis.' yn H. Kyngäs, K. Mikkonen, & M. Kääriäinen (Gol.), *The application of content analysis in nursing science research* (tt. 23–30). Cham: Springer.

Kyngäs, H. (2020). 'Inductive content analysis' yn H. Kyngäs, K. Mikkonen, & M. Kääriäinen (Gol.), *The application of content analysis in nursing science research* (tt. 13–21). Cham: Springer.

Tibbitts, F. L. (2017). Revisiting 'Emerging Models of Human Rights Education'. *International Journal of Educational Development*, 1(1).